CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.*

WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **14.02.20**

GWYLIAU HANNER TYMOR – *HALF TERM HOLIDAY.*

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddymuno gwyliau hanner tymor dymunol i bawb yr wythnos nesaf. Mawr obeithir y caiff pawb Gyfle i ymlacio cyn dychwelyd i'r ysgol **ddydd Mawrth, Chwefror 25ain.,** am fod dydd Llun, Chwefror 24ain yn ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd.

*I take this opportunity to wish everyone a pleasant half term holiday next week. It is hoped that everyone will have an opportunity to relax before returning to school on **Tuesday, February 25th.,** as Monday, February 24th. is an in service training day.*

DIWRNOD HYFFORDDIANT MEWN SWYDD YCHWANEGOL – *ADDITIONAL IN SERVICE TRAINING DAY.*

Fe'ch hysbysir mewn da bryd y bydd **DYDD LLUN, MEHEFIN 1af. 2020** yn ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol i'r ysgol hon, gan ei bod yn ofynnol i bob ysgol gynnal un cyn diwedd y flwyddyn addysgol bresennol er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer y cwricwlwm diwygiedig ddaw i rym ym mis Medi 2022.

*You are informed in good time that **MONDAY, JUNE 1st. 2020** will be an additional in service training day for this school, as all schools are to organise an additional one before the end of the current academic year in order to prepare for the implementation of the revised curriculum which will be operational from September 2022.*

PÊL DROED – *FOOTBALL.*

Bu tîm o'r ysgol yn cymryd rhan yn nhwrnament Bwcle/Wyddgrug ar gae Ysgol Glanrafon bnawn Gwener diwethaf, a bu i bob aelod wneud eu rhan yn arbennig o dda. Yn bennaf oll, bu iddynt fwynhau cymryd rhan yn enw'r ysgol yn fawr iawn.

Pnawn 'ma, bydd tîm arall o'r ysgol yn chwarae gêm yn erbyn tîm o Ysgol Terrig, os bydd y tywydd yn caniatau. Trwy'r amrywiol gêmau hyn, sicrheir bod cymaint o blant ag sydd bosib yn cael cyfle i gynrychioli'r ysgol.

A team from school participated in the Mold/Buckley tournament on the school's field last Friday afternoon, and every member participated enthusiastically. Above all, every member enjoyed the experience of representing the school.

This afternoon, weather permitting, another team will play a game against Ysgol Terrig. By means of these various games, it is ensured that as many children as possible have an opportunity to represent the school.

DATHLU DIWRNOD MIWSIG CYMRU – *CELEBRATE WELSH MUSIC DAY.*

Gwelwyd amrywiaeth dda o ddisgyblion wedi'u gwisgo fel eu hoff gantorion yn yr ysgol heddiw, a gwnaed amrywiol weithgareddau i ddynodi a dathlu y diwrnod arbennig hwn. Braf yn wir yw clywed ein disgyblion yn torri allan i ganu amrywiaeth o ganeuon Cymraeg yn gwbl hyderus.

An interesting variety of pop stars were represented by the pupils in school today, and various activities were carried out during the day to denote and celebrate this special occasion. It's lovely to hear the pupils confidently singing a variety of Welsh songs spontaneously.

BOCSYS BWYD – *LUNCH BOXES.*

Os yw eich plentyn yn dod â bocs bwyd i'r ysgol ar gyfer eu cinio, mae'n HANFODOL fod ei enw wedi'i roi yn glir ar y bocs hwnnw, fel y gellir ei ddychwelyd i'r plentyn os y caiff ei adael ar ôl yn y neuadd ar ddiwedd amser cinio. Bydd unrhyw focsys nad ydynt wedi'u casglu o'r neuadd erbyn diwedd yr wythnos yn cael eu hail gylchu.

COFIER hefyd fod pob eitem o ddillad eich plant yn cael eu labelu'n glir gyda'u henwau.

If your child brings a packed lunch, it is ESSENTIAL that it is clearly labelled with his/her name, so that it can be returned to the child if it's left in the hall after lunch. Any boxes that are not collected from the hall by the end of the week will be re-cycled.

REMEMBER also that every item of your children's clothing are clearly labelled with their names.

ALERGEDDAU – *ALLERGIES.*

Cofiwch beidio â chynnwys unrhyw fwydydd sy'n cynnwys cnau ym mocsys bwyd eich plant ar unrhyw adeg, gan y gallai dod i gysylltiad â nhw gael canlyniadau difrifol i ddisgyblion yn yr ysgol sy'n dioddef o alergedd i gnau. Nid yw plant i rannu cynnwys eu bocsys bwyd gyda disgyblion eraill ar unrhyw adeg ychwaith, rhag ofn bod yna alargeddau nad ydynt yn hysbys i ni nac i'r disgyblion.

Remember not to include any foods which contain nuts in the children's lunch boxes at any time, as contact with nuts could have serious implications for pupils in school who suffer from a nut allergy. Children are not to share foods from their boxes with other children at any time, in case of any unknown allergies.

HOLIADUR TEITHIO – *TRAVEL QUESTIONNAIRE.*

Cofiwch mai heddiw, 14.02.20 yw'r diwrnod olaf i lenwi'r holiadur hwn, trwy ddefnyddio'r ddolen hon – www.surveymonkey.co.uk/r/YGMTravel2020

Please remember that today, 14.02.20 is the last day to fill in this questionnaire, by clicking on this link - www.surveymonkey.co.uk/r/YGMTravel2020

GWAITH ADEILADU – *BUILDING WORK*

Fe'ch hysbysir bod Cwmni Wynne o Fodelwyddan wedi'i apwyntio fel contractwr ar gyfer y gwaith adeiladu sydd i gymryd lle yn yr ysgol fel canlyniad i'r grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Y gobaith ar hyn o bryd yw y bydd ygwaith yn dechrau yn yr Hydref, ac y bydd y cyfan wedi'i gwblhau erbyn Ionawr 2022.

You are informed that Wynne Construction from Bodelwyddan has been appointed as the contractor for the building work here at the school as a result of the grant awarded by the Welsh Government. It is hoped that the work will commence in the Autumn and will be finished by January 2022.

DIGWYDDIADAU I'R DYFODOL – *FORTHCOMING EVENTS.*

24.02.20 **Diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd – *In service training day –*** Dim ysgol i'r disgyblion – *no school for the pupils.*

25.02.20 Ysgol yn ail ddechrau wedi'r gwyliau hanner tymor – *School re-opens following the half term holiday.*

25.02.20 Grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn mynd i gymryd rhan yn Rasys Crempogau Yr Wyddgrug – *A group of Year 6 pupils to participate in the Mold Pancake Races.*

25.02.20 Sesiynau golff i Flwyddyn 5 a 6 – *Golf sessions for Years 5 and 6 pupils.*

26.02.20 P.C. Marc Jones yn rhoi sgwrs i ddisgyblion Blwyddyn 2 a 4 – *P.C. Marc Jones to give a talk to Years 2 and 4 pupils.*

27.02.20 Apwyntiadau y Pnawniau Agored yn cael eu hanfon allan – *Open Afternoons appointments sent to parents.*

27.02.20 Cynrychiolwyr o gwmni adeiladu Wynne yn dod i siarad gyda'r Cyngor Ysgol – *Representatives from the Wynne Construction company to speak to the School's Council.*

28.02.20 Cynrychiolydd o elusen Alzheimers yn dod i gasglu'r arian a godwyd gan yr ysgol – *Representative from the Alzheimers charity to collect the money raised by school.*

29.02.20 Eisteddfod Cylch Yr Wyddgrug – (manylion yn cael eu hanfon ar yr app) - *Mold District Urdd Eisteddfod* – (*details to be sent on the app).*

02-04.03.20 Cwrs preswyl i ddisgyblion Blwyddyn 4 yng Nglan Llyn – *Residential course for Year 4 pupils in Glan Llyn.*

BWYDLEN WEDI'R HANNER TYMOR – *MENU FOLLOWING THE HALF TERM HOLIDAY*

WYTHNOS 2.